INSHOU33

Asesu ar y risg o berygl, niwed neu gamdriniaeth a chymryd camau ar sail hynny

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer staff tai sy'n cyfrannu at asesu'r risg o berygl, niwed neu gam-driniaeth a chymryd camau ar sail hynny. Byddai hyn yn cynnwys lleihau ac ymdrin ag effeithiau niwed a cham-driniaeth a chynorthwyo cwsmeriaid i adolygu sefyllfaoedd a chamau gweithredu pan fydd y risg wedi mynd heibio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi arwyddion a symptomau risgiau perygl, niwed a cham-driniaeth i gwsmeriaid
2. cynnal y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfaoedd a chamau gweithredu a allai arwain at berygl, niwed a cham-drin cwsmeriaid
3. ymateb i unrhyw ddatgeliadau o risgiau perygl, niwed a cham-driniaeth i gwsmeriaid, gan gadarnhau eich bod wedi deall y sefyllfa
4. ceisio cefnogaeth a chymorth mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch arbenigedd a'ch cyfrifoldeb
5. cyfrannu at asesu risgiau gyda chwsmeriaid
6. datblygu perthnasoedd â chwsmeriaid sy'n eu galluogi i gyfleu eu gwybodaeth am berygl, niwed a chamdriniaeth bosibl a gwirioneddol a gwneud datgeliadau
7. sicrhau cwsmeriaid eich bod ar gael i'w cynorthwyo i sôn am eu profiadau
8. gwneud yn siŵr nad yw eich camau gweithredu gyda chwsmeriaid, cydweithwyr a sefydliadau perthnasol yn effeithio'n andwyol ar sut y defnyddir tystiolaeth mewn ymchwiliadau ac achosion llys yn y dyfodol
9. asesu sefyllfaoedd ac ymateb i risgiau uniongyrchol a phosibl a allai arwain at berygl, niwed a cham-drin cwsmeriaid, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion sefydliadol perthnasol
10. asesu risgiau a'u lleihau i chi eich hun, cwsmeriaid, cydweithwyr neu sefydliadau perthnasol, sy'n ymwneud â sefyllfaoedd gyda'r risg bosibl o berygl, niwed a cham-driniaeth
11. gwneud yr amgylchedd yn ddiogel, gan gael gwared ar yr holl sylweddau a deunyddiau peryglus a sicrhau bod tystiolaeth a allai gael ei defnyddio mewn ymchwiliad yn cael ei chadw
12. cynorthwyo cwsmeriaid i nodi gofynion datgelu a'u cyfle, gan gynnig sicrwydd a chefnogaeth iddynt
13. hysbysu cydweithwyr a sefydliadau perthnasol am ofynion datgelu cwsmeriaid, yn unol â'r gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
14. gofyn am gymorth i'ch ymatebion emosiynol personol i'r datgeliadau os yw'n berthnasol
15. myfyrio ar eich gweithredoedd a'ch ymddygiad eich hun i werthuso a allai'r rhain fod wedi cyfrannu at ymddygiad peryglus, niweidiol a chamdriniol
16. cynorthwyo cwsmeriaid i nodi'r ffactorau a arweiniodd at sefyllfaoedd ac

ymddygiad a oedd yn beryglus, yn niweidiol neu'n gamdriniol

17. cyfrannu at gynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â sefyllfaoedd peryglus, niweidiol neu gamdriniol i gydnabod canlyniadau eu hymddygiad, eu cynorthwyo i ofyn am gymorth, cyngor a chymorth, a chymryd camau fydd yn osgoi rhagor o sefyllfaoedd ac ymddygiad peryglus, niweidiol a chamdriniol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau wrth gyfrannu at asesu risg peryglon, niwed a cham-drin a'r camau i fynd i'r afael â nhw.
2. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol o ran diogelu data
3. sut i roi cymorth a gosod gofynion cwsmeriaid yng nghanol eich gwaith, wrth eu galluogi i gymryd cyfrifoldeb i wneud eu penderfyniadau eu hunain sy'n ymwneud â'u hamddiffyn a'u cyfleu.
4. eich rôl a'ch cyfrifoldebau chi a rolau cydweithwyr a sefydliadau perthnasol wrth amddiffyn cwsmeriaid rhag perygl, niwed a cham-driniaeth
5. y codau ymarfer ac ymddygiad, y ddeddfwriaeth, y safonau a'r canllawiau sy'n berthnasol i'ch rôl eich hun a chydweithwyr a sefydliadau perthnasol wrth amddiffyn cwsmeriaid rhag perygl, niwed a cham-driniaeth.
6. y ddeddfwriaeth berthnasol a'r gofynion, gweithdrefnau ac arferion sefydliadol ar gyfer amddiffyn cwsmeriaid rhag perygl, niwed a cham-driniaeth
7. y ddeddfwriaeth berthnasol a'r gofynion, gweithdrefnau ac arferion sefydliadol ar gyfer iechyd, diogelwch, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â nodi'r risg o berygl, niwed a cham-drin i gwsmeriaid a mynd i'r afael â nhw
8. sut i gael gafael ar gofnodion a gwybodaeth am ymddygiad peryglus, camdriniol a niweidiol cwsmeriaid yn y categori hwn
9. trefniadau ar gyfer eich goruchwylio, a'u diben, wrth ddelio â digwyddiadau peryglus, niweidiol a chamdriniol a datgeliad o ddigwyddiadau o'r fath gan gwsmeriaid a chydweithwyr neu randdeiliaid perthnasol
10. sut a ble i gael gafael ar wybodaeth a chymorth a allai lywio eich arferion gwaith wrth gyfrannu at asesu'r risg o berygl, niwed a cham-drin, a'r camau i fynd i'r afael â nhw.
11. adroddiadau, ymchwiliadau ac ymchwil berthnasol llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig mewn cysylltiad ag amddiffyn cwsmeriaid rhag perygl, niwed a cham-driniaeth
12. y damcaniaethau sy'n berthnasol i'r cwsmeriaid rydych chi'n gweithio gyda nhw, am agweddau ar dwf a datblygiad dynol a sut gall y rhain effeithio a chael eu heffeithio gan gwsmeriaid sy'n gorfod dioddef perygl, niwed a cham-driniaeth
13. y ffyrdd y gall perygl, niwed a cham-driniaeth yn y tymor byr, canolig a hir

effeithio ar les cwsmeriaid
14. sut i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a sefydliadau perthnasol i gynorthwyo cwsmeriaid yr ydych chi a chydweithwyr yn amau eu bod mewn perygl o niwed a cham-driniaeth neu sydd wedi cael eu niweidio a'u cam-drin
15. beth i'w wneud os ydych chi'n amau neu os oes gennych dystiolaeth bod y person sy'n gyfrifol am niwed a cham-driniaeth yn gydweithiwr
16. sut i amddiffyn eich hun a chwsmeriaid rydych chi'n gweithio gyda nhw rhag perygl, niwed a chamdriniaeth
17. y gwahanol safbwyntiau ar yr hyn sy'n niweidiol, yn beryglus ac yn gamdriniol a sut maen nhw'n cysylltu â'ch rôl a'ch tasgau
18. arwyddion a symptomau perygl, niwed a cham-driniaeth a'r camau cywir i'w cymryd pan fyddwch yn amau bod perygl, niwed a cham-driniaeth wedi'i ddatgelu
19. effeithiau'r posibilrwydd o ddioddef niwed, perygl neu gamdriniaeth a'u heffaith ar y cwsmeriaid, cydweithwyr perthnasol a sefydliadau cysylltiedig, eich ymddygiad chi ac ymddygiad pobl erall.
20. y mathau perthnasol o dystiolaeth sy'n ddilys mewn ymchwiliadau ac achosion llys a sut i sicrhau nad yw eich gweithredoedd a'ch datganiadau yn effeithio'n andwyol ar y rhain
21. y ffordd y gall perthnasoedd cefnogol helpu cwsmeriaid, cydweithwyr perthnasol a sefydliadau cysylltiedig i ymdopi â'r hyn sydd wedi digwydd iddynt
22. sut i ddelio ag achosion pan fydd cwsmeriaid, cydweithwyr a sefydliadau perthnasol yn datgelu camdriniaeth, a'r camau i'w cymryd
23. sut i gyfrannu at asesu lefelau risg a'r camau priodol i'w cymryd i liniaru'r rhain
24. sut i weithio gyda chydweithwyr a sefydliadau perthnasol a'u galluogi i weithio gyda chwsmeriaid y mae eu hymddygiad yn debygol o achosi, neu yn achosi, risgiau iddyn nhw eu hunain neu gydweithwyr a sefydliadau perthnasol
25. sut i weithio gyda chydweithwyr a sefydliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r adolygiadau o risgiau neu'r camau sydd i'w cymryd
26. sut i fyfyrio ar sut y gallai eich ymddygiad a'ch gweithredoedd gyfrannu at ddigwyddiadau lle ceir perygl, niwed a cham-driniaeth, a gwerthuso hynny

INSHOU33

Asesu ar y risg o berygl, niwed neu gamdriniaeth a chymryd camau ar sail hynny

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 06 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | SFHSC395 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio |
| **Cyfres/Set** | Tai |
| **Geiriau Allweddol** | eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; cyfrannu; asesu; risg; perygl; niwed; cam-driniaeth; lleih |